# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant**

# CYNLLUNIAU HYGYRCHEDD
## Canllawiau a Chynllun Model ar gyfer Ysgolion

**Medi 2022**



## Tudalen Cynnwys


| Adran | Cynnwys | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 3 |
| 3 | Integreiddio Hygyrchedd i bolisïau a chynlluniau Statudol ac Anstatudol eraill | 4 |
| 4 | Anabledd, Addasiadau Rhesymol a Gwahaniaethu | 4 |
| 5 | Amcan Allweddol y Cynllun Hygyrchedd | 5 |
| 6 | Trosolwg o'r Cynllun Hygyrchedd | 5 |
| 7 | Paratoi Cynllun Hygyrchedd | 6 |
| 8 | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | 6 |
| 9 | Ymgysylltu | 7 |
| 10 | Dysgu Proffesiynol Staff | 8 |
| 11 | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 8 |
| 12 | Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol | 8 |
| 13 | Gwerthuso Effeithiolrwydd y Cynllun Hygyrchedd | 8 |
| 14 | Cyhoeddi a Monitro Deilliannau | 9 |
| 15 | Casgliad | 9 |
| 16 | Rhagor o Gymorth a Chanllawiau | 9 |
| Atodiad A | Model Cynllun a Thempled Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion | 10 |
| Atodiad B | Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol | |

1. **CYFLWYNIAD**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, a'i holl ysgolion, gyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, a bod yn atebol am y ffordd y mae'n cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu amddiffyniad i unigolion â'r nodweddion gwarchodedig sy wedi'u nodi yn Neddf 2010, rhag gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol. Caiff y rhain eu galw'n **nodweddion gwarchodedig.**

2. **GOFYNION DEDDF CYDRADDOLDEB (2010) A DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS**

Daeth **Deddf Cydraddoldeb 2010** â chyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol at ei gilydd mewn un Ddeddf a chyflwynodd ddyletswydd gyffredinol newydd, **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus,** sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau i roi sylw dyledus i sut i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf;
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu; a
- hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Er mwyn cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf, mae gan ysgolion dair set o ddyletswyddau penodol:

- casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am eu cynnydd wrth gyflawni tri nod Deddf 2010;
- penderfynu ar amcanion penodol a mesuradwy dros y blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni'r nodau yma, a chyhoeddi'r amcanion yma;

  ac wrth ymgymryd â'r ddwy set gyntaf o ddyletswyddau penodol:
- ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb diffuant – gan gynnwys yr holl staff, yr holl rieni/gwarcheidwaid a disgyblion, a grwpiau, sefydliadau ac unigolion lleol fel y bo'n briodol.

Mae **Atodlen 10** y Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar y corff sy'n gyfrifol am ysgolion a lleoliadau addysgol i baratoi Cynllun Hygyrchedd i sicrhau bod gweithgareddau ysgolion yn hygyrch i ddisgyblion ag anabledd.

**O leiaf bob tair blynedd,** rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol baratoi, gweithredu, adolygu a diweddaru **cynllun hygyrchedd ysgrifenedig** sy'n nodi sut y bydd blaenoriaethau a thargedau gwella penodol yn gwella hygyrchedd addysg yn erbyn y tair dyletswydd gynllunio ar gyfer disgyblion anabl presennol a darpar ddisgyblion anabl.

## 3. INTEGREIDDIO HYGYRCHEDD I BOLISÏAU A CHYNLLUNIAU STATUDOL AC ANSTATUDOL ERAILL

Bydd ymgorffori cynllunio hygyrchedd mewn polisi ehangach yn sicrhau ymrwymiad i'r cynllun.

Mae modd i'r cynllun hygyrchedd fod yn gydran ar wahân yng nghynllun datblygu'r ysgol. Dros amser, dylai'r cynllun ddod yn rhan annatod o flaengynllunio – llinyn cyson sy'n rhedeg drwy holl gynlluniau a pholisïau'r ysgol, gan gynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â rheoli safleoedd, y cwricwlwm, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cymorth a hyfforddiant staff.

## 4. ANABLEDD, ADDASIADAU RHESYMOL A GWAHANIAETHU

### Anabledd

O dan Adran 6 y Ddeddf, mae person yn anabl os oes ganddo/ganddi:

(a) **amhariad corfforol neu feddyliol**
(b) sy'n cael **effaith andwyol sylweddol a thymor-hir** ar allu person i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol.

Mae'r diffiniad o anabledd yn cwmpasu namau corfforol, sy'n cynnwys namau symudedd a synhwyraidd. Mae hefyd yn ymdrin â namau meddyliol sy'n cynnwys anawsterau dysgu ac unrhyw nam sy'n deillio o salwch meddwl. Yn yr achos olaf, does dim angen i'r salwch meddwl gael ei 'gydnabod yn glinigol', ond mae'n rhaid iddo barhau i gael effaith andwyol **sylweddol a hirdymor** ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Ystyrir bod canser, haint firws diffyg imiwnedd dynol (HIV), sglerosis ymledol ac anffurfiad difrifol yn anabledd ynghyd â chyflyrau cynyddol, megis nychdod cyhyrol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Dydy bod â nam ynddo'i hun ddim yn golygu bod person yn anabl; er enghraifft, os mai dim ond effaith fach y mae'r nam yn ei chael ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Yn ogystal, mae effaith nam yn cael ei diffinio gan y Ddeddf fel **hirdymor** os yw:

(a) wedi para am o leiaf 12 mis, **neu**
(b) yn debygol o bara am o leiaf 12 mis, **neu**
(c) yn debygol o bara am weddill oes y person sy'n cael ei effeithio.

### Addasiadau Rhesymol

Mae gan ysgolion ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol a fydd yn galluogi disgyblion ag anableddau i gymryd rhan lawn yn eu haddysg yn yr ysgol a

mwynhau'r buddion, cyfleusterau a gwasanaethau/gweithgareddau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu ochr yn ochr â chyfoedion sydd ddim yn anabl.

**Gwahaniaethu**

Mae modd i wahaniaethu fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gwahaniaethu uniongyrchol yn erbyn disgybl anabl yw pan fo'r disgybl anabl hwnnw'n cael ei drin/thrin yn llai ffafriol nag un arall oherwydd ei nam neu ei anabledd/hanabledd.
Mae modd i ddisgyblion anabl brofi gwahaniaethu anuniongyrchol lle mae polisi penodol, fel y'i cymhwysir, yn eu rhoi dan anfantais (neu y byddai, pe bai'n cael ei gymhwyso, yn eu rhoi dan anfantais).

Mae gwahaniaethu'n digwydd pan fydd disgybl anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol nid oherwydd yr anabledd ei hun, ond am reswm sy'n ymwneud â'i anabledd a does dim modd cyfiawnhau'r driniaeth yma.

Serch hynny, dydy trin disgybl anabl yn fwy ffafriol nag un sydd ddim yn anabl ddim yn gwahaniaethu.

## 5. AMCAN ALLWEDDOL Y CYNLLUN HYGYRCHEDD

Diben y Cynllun Hygyrchedd yw lleihau a dileu rhwystrau i fynediad i'r cwricwlwm a sicrhau cyfranogiad llawn yng nghymuned yr ysgol ar gyfer disgyblion, darpar ddisgyblion, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr ag anabledd.

## 6. TROSOLWG O'R CYNLLUN HYGYRCHEDD

Rhaid i gynlluniau hygyrchedd gael eu paratoi gan bob ysgol yn unigol a bod yn berthnasol iddyn nhw.

Mae'r gofyniad i baratoi cynlluniau hygyrchedd yn cynnwys meithrinfeydd cyn-ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol.

**Y tair dyletswydd gynllunio**

Rhaid i strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd nodi:

- Sut y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynyddu'r ansawdd a'r graddau mae modd i ddisgyblion anabl gymryd rhan lawn yn y cwricwlwm, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol a thu allan i'r ysgol? (Erthyglau 23 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP))

- Pa welliannau amgylcheddol ffisegol y bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol eu sicrhau er mwyn sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at addysg, cyfleusterau a gwasanaethau budd i ddisgyblion anabl? (Erthyglau 6 a 28 o CCUHP)

- Sut bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwella'r modd y darperir gwybodaeth hygyrch i ddisgyblion anabl? (Erthyglau 2, 4 a 13 o CCUHP)

- Sut mae plant a phobl ifainc yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau (Erthygl 12 CCUHP).

Rhaid i strategaethau a chynlluniau hygyrchedd gael eu paratoi, eu gweithredu, eu gwerthuso, eu hadolygu a'u hailgyhoeddi bob tair blynedd a rhaid iddyn nhw ystyried pob agwedd ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig sy'n cael eu darparu gan ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm ac amser egwyl, amser cinio, chwaraeon ysgol, gweithgareddau'r cwricwlwm estynedig a phob agwedd ar fynychu'r ysgol, meithrinfa cyn ysgol neu uned cyfeirio disgyblion.

## 7. PARATOI CYNLLUN HYGYRCHEDD

Wrth ddrafftio cynllun hygyrchedd, rhaid i ysgolion ystyried y ddau faes gwella hygyrchedd cyffredinol yn ogystal â'r gwelliannau sydd eu hangen i hwyluso hygyrchedd ar gyfer anghenion penodol disgyblion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae cynllun hygyrchedd enghreifftiol gyda phenawdau a awgrymir i'w cynnwys yn Atodiad A. Darperir y fformat fel canllaw yn unig ac mae modd i ysgolion ddefnyddio fformatau eraill os ydyn nhw'n dymuno. Beth bynnag fo'r fformat a fabwysiedir, rhaid i bob ysgol sicrhau ei bod yn paratoi, yn gweithredu, yn gwerthuso, yn adolygu, yn ailgyhoeddi ac yn cyhoeddi cynllun hygyrchedd ar sail dreigl dros dair blynedd.

Rhaid i'r cynllun hefyd ddangos bod yr ysgol yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol yn sail i'w phenderfyniadau. Mae'n hanfodol bod y cynllun hygyrchedd yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol.

Mae Pecyn Cymorth Archwilio Hygyrchedd Rhondda Cynon Taf wedi'i ddatblygu i gefnogi ysgolion i nodi rhwystrau i hygyrchedd i lywio'r gwaith o adolygu a datblygu eu cynlluniau hygyrchedd ac mae i'w weld yn Atodiad B.

## 8. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

### CYRFF LLYWODRAETHU

Rhaid i Gyrff Llywodraethu Ysgolion **wneud y canlynol:**

- sicrhau bod yr ysgol yn cyhoeddi ei chynllun hygyrchedd tair blynedd
- gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd y cynllun yn flynyddol o leiaf a chyhoeddi cynllun newydd bob tair blynedd
- cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni
- gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol i lenwi'r ffurflen Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol i lywio'r Cynllun Hygyrchedd

- ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd mewn materion cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant.

**UWCH GARFANAU RHEOLI**

Mae'n rhaid i Uwch Arweinwyr mewn ysgolion sicrhau eu bod yn hyrwyddo hygyrchedd ac yn dileu gwahaniaethu trwy gynnal cylch datblygu, gweithredu ac adolygu eu cynllun hygyrchedd fel a ganlyn:

- Archwilio/Adolygu canlyniadau cynlluniau blaenorol a llenwi ffurflen Offeryn Archwilio Hygyrchedd i nodi rhwystrau i hygyrchedd
- Ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Sicrhau bod y cynllun yn nodi deilliannau dymunol a blaenoriaethau ar gyfer gwella tymor byr, canolig a hir yr ysgol yn glir gyda threfniadau gweithredu ac amserlen glir
- Gosod targedau/nodau penodol a mesuradwy gydag amserlenni clir ar gyfer gwerthuso
- Gweithredu'r cynllun hygyrchedd a dyrannu adnoddau digonol i gefnogi ei weithrediad
- Sicrhau bod fframwaith yn ei le, gydag adolygiad blynyddol o'r cynllun mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid i werthuso ei lwyddiant
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Cynllun Hygyrchedd, eu bod yn cael hyfforddiant rheolaidd mewn materion cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant ac yn hyrwyddo hygyrchedd a chyfle cyfartal i ddisgyblion anabl.

## 9. YMGYSYLLTU

Dylai barn dysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill (e.e. rhieni, gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr ysgol a'r gymuned ehangach) gynorthwyo i lunio'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r targedau sy'n cael eu nodi yn y Cynllun Hygyrchedd.

Mae ymgysylltu llwyddiannus yn gofyn am gasglu gwybodaeth a rhyngweithio ag ystod o ddisgyblion anabl a disgyblion sydd ddim yn anabl, eu rhieni/gwarcheidwaid ac unigolion eraill, tra hefyd yn parhau i fod yn sensitif i anghenion unigolion ag anabledd. Mae gwrando ar ddisgyblion, a'u teuluoedd a'u gwarcheidwaid, mewn ffordd ystyrlon yn hanfodol i ddeall anghenion ein disgyblion a'n teuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae'n bwysig ystyried pa mor hygyrch yw'r broses ymgynghori i randdeiliaid ag anabledd. Er enghraifft, efallai y bydd angen defnyddio deunyddiau a dulliau cyflwyno wedi'u haddasu i sicrhau hygyrchedd i'r rhai ag anableddau neu ADY.

Dylid hefyd ystyried sut y bydd ysgol yn rhannu'r wybodaeth yma â rhanddeiliaid allweddol (e.e., trwy adroddiadau blynyddol, gwefan yr ysgol, cylchlythyrau ac ati) ac a yw ar gael mewn fformatau hygyrch i bawb.

## 10. DYSGU PROFFESIYNOL STAFF

Mae'n ofyniad statudol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol ymhlith staff ac i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn y maes yma yn ystod y broses rheoli cyflawniad. Dylid gwneud hyn yn rheolaidd bob blwyddyn a dylai deilliannau gyfrannu at gynlluniau dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

## 11. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Dylid cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb fel mater o drefn i adolygu cynlluniau a pholisïau cyfredol ac arfaethedig er mwyn sicrhau bod neb dan anfantais yn ystod gweithgareddau ysgol oherwydd gwahaniaethu. Dylid cynnal asesiadau effaith ar broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd gynyddol gynhwysol a theg. Lle mae asesiadau effaith wedi'u cynnal, dylen nhw ddylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygu cynlluniau.

## 12. CYNLLUNIAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae'n bwysig nodi bod y gofyniad i baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wahân i'r Cynllun Hygyrchedd ac felly mae angen dau gynllun. Mae rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gael yn Polisïau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

## 13. GWERTHUSO EFFEITHIOLRWYDD Y CYNLLUN HYGYRCHEDD

Dylid datblygu trefniadau gwerthuso mewn cysylltiad â nodau, targedau ac amserlenni a osodwyd yn y cynllun. Yn ogystal â chyflawni nodau a thargedau, mae modd dangos llwyddiant cynllun hygyrchedd drwy:

- Newidiadau gweladwy o ran hyder y staff wrth addysgu a chefnogi disgyblion anabl ag amrywiaeth o anghenion
- Tystiolaeth o gynyddu cyfranogiad disgyblion anabl ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau ar ôl oriau'r ysgol, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, teithiau ysgol a chludiant ysgol)
- Disgyblion anabl a'u rhieni yn fwy bodlon â'r ddarpariaeth ar eu cyfer, a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol
- Cynnal archwiliadau ym mhrif feysydd y cwricwlwm
- Cynlluniau graddol ar gyfer gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol, a
- Gwybodaeth ar gyfer disgyblion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

Dylid rhannu adroddiad blynyddol yn gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun Hygyrchedd gyda'r corff llywodraethu a dylen nhw chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio unrhyw gynlluniau newydd. Dylai cadeirydd y llywodraethwyr roi trosolwg o lwyddiant y cynllun o ran gwella hygyrchedd yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid.

## 14. CYHOEDDI A MONITRO DEILLIANNAU

Dylai ysgolion gyflwyno adroddiad blynyddol yn manylu ar y Cynllun Hygyrchedd a'i werthusiad i'r corff llywodraethu. Dylid manylu hefyd ar wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni/Gwarcheidwaid.

Rhaid i'r Cynllun Hygyrchedd gael ei fonitro gan y corff llywodraethu a rhaid i bob cynllun newydd gael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol ar gais.

## 15. CASGLIAD

I grynhoi, mae'n ofyniad statudol i bob ysgol gael Cynllun Hygyrchedd sy'n nodi'n glir sut y mae wedi cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddatblygu'r cynllun tair blynedd. Dylai'r cynllun gynnwys manylion am sut y nodwyd y blaenoriaethau a'r targedau gwella hygyrchedd, y dull a ddefnyddiwyd mewn perthynas ag ymgysylltu a hunanwerthuso, ynghyd â chamau gweithredu clir y manylir arnynt yn y cynllun ar sut y bydd y blaenoriaethau a'r targedau gwella hygyrchedd yn cael eu bodloni. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a sicrhau bod y Cynllun yn cael ei adolygu'n fanwl. Dylid cyflwyno gwybodaeth am y cynnydd diweddaraf yn flynyddol i'r Corff Llywodraethu.

## 16. RHAGOR O GYMORTH A CHANLLAWIAU

Mae rhagor o fanylion ar gael gan y Gwasanaethau Cynhwysiant (Ceri.L.Jones@rctcbc.gov.uk) neu gan y Garfan Materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk.

Mae canllawiau mwy cynhwysfawr am lunio Cynllun Hygyrchedd ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau'.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/cynllunio-ar-gyfer-cynyddu-mynediad-i-ysgolion-i-ddisgyblion-ag-anableddau.pdf (llyw.cymru)

Atodiad A

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

**CYNLLUN HYGYRCHEDD**
**RHOWCH ENW'R YSGOL YMA**
**Y CYFNOD 3 BLYNEDD A GYNHWYSIR GAN Y CYNLLUN: 2022–2025**

RHOWCH DDELWEDD

**Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu: DYDDIAD**
**Dyddiad yr adolygiad blynyddol: DYDDIAD**
**Dyddiad yr adolygiad llawn: DYDDIAD**

**CYNLLUN HYGYRCHEDD 2022-2025 RHOWCH ENW'R YSGOL**

**TUDALEN GYNNWYS**


| Adran | Cynnwys | RHOWCH rifau'r tudalennau |
|---|---|---|
| | Rhagair | |
| 1 | Cyflwyniad | |
| 2 | Amcan Allweddol y Cynllun Hygyrchedd | |
| 3 | Deddfwriaeth a Chanllawiau | |
| 4 | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | |
| 5 | Ymgysylltu | |
| 6 | Gwybodaeth o Ddata Disgyblion ac Archwiliadau Ysgol | |
| 7 | Dysgu Proffesiynol Staff | |
| 8 | Cyhoeddi a Monitro Deilliannau | |
| 9 | Cysylltiadau â Pholisïau / Cynlluniau Eraill | |
| 10 | Arweinyddiaeth Strategol | |
| Atodiad 1 | Blaenoriaethau ar gyfer Gwella'r Cynllun Hygyrchedd | |

**RHAGAIR**

Yn enw'r ysgol rydyn ni'n cydnabod yn llawn ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bob disgybl, gweithiwr, aelod o gymuned yr ysgol a defnyddiwr gwasanaeth waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.

Rydyn ni'n llwyr gefnogi gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r angen am amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth unigolion â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf 2010.

Mae ein Cynllun Hygyrchedd wedi'i lywio gan farn ein disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach fel ein bod ni'n sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn gadarn â blaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn ategu ac yn cefnogi'r Amcanion Cydraddoldeb a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol.

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn dangos sut mae gwella mynediad i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr â'r ysgol o fewn amserlen benodedig ac yn rhagweld yr angen i wneud addasiadau rhesymol i leihau a dileu rhwystrau i hygyrchedd a nodwyd.

Bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer gwella fel yr amlinellir yn y Cynllun. Bydd y rhain yn cael eu rhannu a'u cyhoeddi fel bod tryloywder ac atebolrwydd. Byddwn ni hefyd yn ceisio ymgysylltu â chymuned ein hysgol a phartneriaid ehangach i sicrhau bod ein Cynllun a'r camau a gymerwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion ag anableddau yn ein hysgol ac i aelodau o gymuned ein hysgol.

| | |
|---|---|
| **RHOWCH ENW** | **RHOWCH ENW** |
| **PENNAETH** | **CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae cenhadaeth ein hysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb (2010) NODWCH WYBODAETH AM GENHADAETH YR YSGOL ac mae'n sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei ddathlu yn ein hysgol gymunedol.

Nod ein hysgol yw trin disgyblion a chymuned yr ysgol gyfan yn deg a chyda pharch. Mae hyn yn cynnwys darparu mynediad a chyfleoedd i bawb heb wahaniaethu o unrhyw fath. Mae ein hysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl ag anabledd a, thrwy hyrwyddo ethos cadarnhaol, yn anelu at ddileu gwahaniaethu yn ymwneud ag anabledd.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ysgolion gael Cynllun Hygyrchedd.

Bydd y cynllun ar gael ar-lein ar wefan yr ysgol, ac mae copïau papur ar gael ar gais.

Mae'r ysgol yn cefnogi unrhyw bartneriaethau sydd ar gael i ddatblygu a gweithredu'r cynllun.

Mae'r Cynllun yn destun fframwaith monitro a gwerthuso trwyadl.

Mae trefn gwyno ein hysgol yn cwmpasu'r Cynllun Hygyrchedd. Os oes gyda chi unrhyw bryderon ynghylch hygyrchedd yn yr ysgol, mae’r weithdrefn yma'n nodi’r broses ar gyfer codi’r pryderon yma.

## 2. AMCAN ALLWEDDOL Y CYNLLUN HYGYRCHEDD

Diben y Cynllun Hygyrchedd yw lleihau a dileu rhwystrau i fynediad i’r cwricwlwm a sicrhau cyfranogiad llawn yng nghymuned yr ysgol ar gyfer disgyblion, darpar ddisgyblion, staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr ag anabledd.

Mae’r Cynllun Hygyrchedd wedi’i ddatblygu o amgylch tair dyletswydd gynllunio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella sy’n ymwneud â sut y bydd ein hysgol yn:

- cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yn y cwricwlwm;
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu manteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig;
- gwella cyfathrebu â disgyblion anabl a chyfleu gwybodaeth a ddarperir yn ysgrifenedig iddyn nhw ar gyfer disgyblion sydd ddim yn anabl, mewn fformatau amgen priodol a chan ystyried unrhyw ddewisiadau a fynegir ganddyn nhw neu eu rhieni.

## 3. DEDDFWRIAETH A CHANLLAWIAU

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn cwrdd â gofynion Atodlen 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n gosod dyletswydd statudol ar ysgolion i baratoi Cynllun Hygyrchedd o leiaf bob tair blynedd.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio unigolyn yn anabl os oes ganddo/ganddi:

(a) **amhariad corfforol neu feddyliol**
(b) sy'n cael **effaith andwyol sylweddol a thymor-hir** ar allu person i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol.

O dan y Ddeddf, diffinnir 'sylweddol' fel effaith andwyol sy'n fwy na chael effaith fach a diffinnir 'hirdymor' fel blwyddyn / 12 mis neu fwy.

Mae gan ysgolion ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol a fydd yn galluogi disgyblion ag anableddau i gymryd rhan lawn yn eu haddysg yn yr ysgol a mwynhau'r buddion, cyfleusterau a gwasanaethau/gweithgareddau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu ochr yn ochr â chyfoedion sydd ddim yn anabl.

## 4. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Y CORFF LLYWODRAETHU

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf, mae'r corff llywodraethu**:**

- yn sicrhau bod yr ysgol yn cyhoeddi ei chynllun hygyrchedd tair blynedd
- yn gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd y cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn a chyhoeddi cynllun newydd bob tair blynedd
- yn cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni
- yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr yr ysgol i lenwi'r ffurflen Offeryn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol i lywio'r Cynllun Hygyrchedd
- yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd mewn materion cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb adrodd, mae'r corff llywodraethu yn adrodd ar gynnydd y Cynllun Hygyrchedd yn flynyddol, yn rhan o'i Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid.

### UWCH GARFAN RHEOLI

Mae Uwch Arweinwyr yn ein hysgol yn hyrwyddo hygyrchedd ac yn dileu gwahaniaethu trwy gynnal cylch datblygu, gweithredu ac adolygu eu cynllun hygyrchedd fel a ganlyn:

- Archwilio/adolygu deilliannau cynlluniau blaenorol a llenwi ffurflen Offeryn Archwilio Hygyrchedd i nodi rhwystrau i hygyrchedd

- Ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Sicrhau bod y cynllun yn nodi deilliannau dymunol a blaenoriaethau ar gyfer gwella tymor byr, canolig a hir yr ysgol yn glir gyda threfniadau gweithredu a graddfeydd amser clir
- Gosod targedau/nodau penodol a mesuradwy gydag amserlenni clir ar gyfer gwerthuso
- Gweithredu'r cynllun hygyrchedd a dyrannu adnoddau digonol i gefnogi ei weithrediad
- Sicrhau bod fframwaith yn ei le, gydag adolygiad blynyddol o'r cynllun mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid i werthuso ei lwyddiant
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Cynllun Hygyrchedd, yn cael hyfforddiant rheolaidd mewn materion cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant a hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i ddisgyblion anabl.

## 5. YMGYSYLLTU

Mae Cynllun Hygyrchedd (ENW'R YSGOL) wedi'i ddatblygu drwy ymgynghori â disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill sy'n cyfrannu at gymuned yr ysgol gyfan.

Mae ystod eang o weithgareddau ymgysylltu gwahanol wedi'u cynnal i lywio cynlluniau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dadansoddiad o ymatebion arolwg neu adborth grwpiau ffocws ar faterion cydraddoldeb gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Rhoddwyd peth ystyriaeth i ddadansoddi gwybodaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig i lywio cynllunio strategol
- gweithgareddau llais y disgybl ac adborth cynghorau ysgol
- dadansoddiad o gwynion ysgolion
- adborth a gasglwyd mewn sesiynau ymgynghori â rhieni a gweithdai
- adborth o brosesau adolygu blynyddol, a
- deilliannau o sesiynau a gweithgareddau cydlyniant cymunedol.

Wrth ymgynghori, rhoddwyd ystyriaeth bwysig i'r dulliau mwyaf effeithiol a dibynadwy o gasglu gwybodaeth. Mae cyfleusterau dehongli wedi eu sefydlu ar gyfer y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw neu sydd newydd gyrraedd Prydain. Mae deunyddiau wedi'u haddasu a fformatau hygyrch hefyd wedi'u defnyddio i sicrhau hygyrchedd i'r rhai ag anableddau neu ADY.

## 6. GWYBODAETH O DDATA DISGYBLION AC ARCHWILIADAU YSGOL

Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi ein Cynllun Hygyrchedd, rydyn ni wedi cynnal adolygiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a'r camau gweithredu a nodwyd yn ein cynllun hygyrchedd blaenorol. Yn ogystal, rydyn ni wedi defnyddio Offeryn Archwilio Hygyrchedd RhCT i nodi'r rhwystrau sy'n dal i fodoli i hygyrchedd ac i lywio camau penodol a mesuradwy mae modd i ni eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol hefyd wedi llywio’r Cynllun ac maen nhw'n cynnwys dadansoddiad o ddata disgyblion lle bo’n berthnasol.

## 7. DYSGU PROFFESIYNOL STAFF

Mae ein hysgol hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi mewn materion cydraddoldeb gan gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys deall materion anabledd. Mae anghenion hyfforddi penodol yn y maes yma'n cael eu nodi a'u trin yn ystod y broses rheoli cyflawniad. Ymgymerir â hyn bob blwyddyn ac mae deilliannau yn cyfrannu at ein cynlluniau dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

## 8. CYHOEDDI A MONITRO DEILLIANNAU

Mae'r ysgol yn darparu adroddiad sy'n manylu ar y Cynllun Hygyrchedd a'i werthusiad ohono i'r corff llywodraethu yn flynyddol. Mae gwybodaeth hefyd yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni/Gwarcheidwaid a’r Cynllun, a rhennir ei werthusiad gyda rhieni/gwarcheidwaid.

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn cael ei fonitro gan y corff llywodraethu. Mae hawl gan yr awdurdod lleol ofyn am gopi o’r Cynllun unrhyw bryd.

Gweler Atodiad 1 am y blaenoriaethau ar gyfer gwella a’r camau gweithredu cysylltiedig y mae ein hysgol wedi’u nodi yn ein Cynllun Hygyrchedd.

## 9. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU/CYNLLUNIAU ERAILL

Mae’r Cynllun Hygyrchedd yn gysylltiedig â’r dogfennau a’r polisïau canlynol:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Polisi ADY
- Polisi Cefnogi Disgyblion ag Anghenion Gofal Iechyd
- Polisi'r Cwricwlwm
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Gwrth-fwlio.

## 10. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL

Yr arweinydd ar gyfer y Cynllun Hygyrchedd yn ENW'R YSGOL yw ENW.

Mae modd i'r pennaeth ddarparu rhagor o wybodaeth os oes angen.

**Atodiad 1:**

## RHOWCH ENW'R YSGOL YMA
## CYNLLUN HYGYRCHEDD 2022-2025

**Dyddiad Cyhoeddi:** Hydref 2022
**Adolygiad cyntaf o'r Cynllun Hygyrchedd:** Hydref 2023
**Adolygiad Terfynol o'r Cynllun Hygyrchedd:** Hydref 2025

| Blaenoriaethau ar gyfer Gwella 1: Gwella Mynediad i'r Cwricwlwm | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliant** | **Camau i sicrhau Deilliant** | **Person cyfrifol** | **Tymor hir, canolig neu fyr** | **Dyddiad Cwblhau** | **Costau ac Adnoddau** | **Monitro a Thystiolaeth** | **Datganiad / Gwerthusiad Effaith** |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| Blaenoriaeth ar gyfer Gwella 2: Gwella Mynediad i Safle'r Ysgol / Amgylchedd Ffisegol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliant** | **Camau i sicrhau Deilliant** | **Person cyfrifol** | **Tymor hir, canolig neu fyr** | **Dyddiad Cwblhau** | **Costau ac Adnoddau** | **Monitro a Thystiolaeth** | **Datganiad / Gwerthusiad Effaith** |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| Blaenoriaeth ar gyfer Gwella 3: Gwella Mynediad at Wybodaeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deilliant** | **Camau i sicrhau Deilliant** | **Person cyfrifol** | **Tymor hir, canolig neu fyr** | **Dyddiad Cwblhau** | **Costau ac Adnoddau** | **Monitro a Thystiolaeth** | **Datganiad / Gwerthusiad Effaith** |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**Pecyn Archwilio Hygyrchedd ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyn-ysgol**

| **Ysgol** | **Dyddiad cwblhau** |
|---|---|
| **Enw'r person wnaeth gwblhau'r archwiliad** | **Swydd** |

## 1. A yw'ch lleoliad addysgol chi yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010?

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Tystiolaeth** | **Croes ✗** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Oes gennych chi Gynllun Hygyrchedd? | | | | |
| 2 | Gafodd eich cynllun hygyrchedd ei ddylunio ar y cyd gyda phlant neu bobl ifanc ag ADY, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill? | | | | |
| 3 | A yw pawb yn eich lleoliad yn ymwybodol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | | | | |
| 4 | Oes gyda chi dystiolaeth bod eich lleoliad yn trin disgyblion/myfyrwyr yr un mor ffafriol â phawb arall, ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion/myfyrwyr anabl dan anfantais i gymharu â'u cyfoedion? | | | | |
| 5 | Oes gyda chi dystiolaeth bod cymuned eich ysgol yn ymdrechu i weld y | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | plentyn/person ifanc gydag ADY fel unigolyn yn hytrach nag fel rhywun ag anabledd? (e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd, cynlluniau addysg sy'n datblygu cryfderau plentyn/person ifanc yn ogystal â diwallu eu hanghenion) | | | | |
| 6 | Ydych chi wedi cyhoeddi eich adroddiad gwybodaeth ADY? | | | | |
| 7 | A yw'r adroddiad ADY yn adlewyrchu darpariaeth leol? | | | | |
| 8 | Ydy pob aelod o staff yn deall anghenion disgyblion/myfyrwyr ac yn eu cefnogi yn ôl yr angen? | | | | |
| 9 | Oes gyda chi bolisïau, prosesau ac arferion cynhwysol ar gyfer yr ysgol gyfan? | | | | |
| 10 | A ydych chi'n gwneud ymdrech i gynnwys disgyblion/myfyrwyr gydag ADY a'u teuluoedd ymhob gweithgaredd gyfoethogi? | | | | |
| 11 | Ydych chi'n dathlu cryfderau disgyblion/myfyrwyr ag ADY ac yn canolbwyntio ar eu galluoedd yn hytrach na'r hyn maen nhw'n ei ganfod yn anodd? | | | | |
| 12 | A yw disgyblion/myfyrwyr yn rhan o broses recriwtio | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cynorthwywyr dysgu a staff arall o fewn yr ysgol? | | | | |

**2. A yw eich adeilad chi'n hygyrch i bawb?**

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Tystiolaeth?** | **Croes ✗** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A yw'ch adeiladau wedi cael eu haddasu mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ag anableddau? | | | | |
| 2 | Os nad yw'n bosibl gwneud addasiadau, ydych chi wedi dod o hyd i ffyrdd eraill i sicrhau hygyrchedd e.e. symud dosbarthiadau i ystafelloedd hygyrch? | | | | |
| 3 | Ydy'r llwybrau sydd o amgylch yr adeilad a'r trefniadau parcio yn ddiogel, yn hawdd eu cyrraedd ac yn meddu ar ddigon o arwyddion? | | | | |
| 4 | Ydy'r systemau argyfwng a gadael yr adeilad mewn argyfwng yn hygyrch i bawb e.e. oes gan y larymau rannau gweledol a chlywedol? | | | | |
| 5 | A yw toiledau a chyfleusterau newid wedi'u lleoli mewn mannau addas, gan gael eu cadw at eu dibenion cywir e.e. nid yn cael eu defnyddio i storio pethau? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Oes ardaloedd synhwyraidd isel a thawel ar gael yn y lleoliad? | | | | |
| 7 | A yw eich ystafelloedd (gan gynnwys yr ystafelloedd dosbarth) wedi'u trefnu'n addas ar gyfer disgyblion/myfyrwyr ag anabledd corfforol? | | | | |
| 8 | A yw'r ystafell ddosbarth wedi'i haddasu i sicrhau bod modd i ddisgyblion/myfyrwyr gydag anghenion synhwyraidd i ddefnyddio pob rhan o'r ystafell? Mae hyn yn cynnwys gosod llenni i leihau lefelau sŵn a chael gwared ar annibendod. | | | | |
| 9 | Ydy'r dodrefn a'r offer sydd wedi'u dewis wedi cael eu haddasu a'u lleoli yn y llefydd mwyaf addas? | | | | |
| 10 | Os oes angen, ac os yw'n bosib, oes yna raniadau yn eu lle mewn ystafelloedd agored i sicrhau mynediad i ddisgyblion/myfyrwyr ag anawsterau synhwyraidd? | | | | |
| 11 | Os ydy negeseuon intercom yn cael eu defnyddio, ydyn nhw'n cael eu hail-adrodd i ddisgyblion/myfyrwyr â nam ar eu clyw? | | | | |
| 12 | Ydy pob arwydd a symbol mewn Braille ar gyfer | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | disgyblion gyda nam ar eu golwg, ac ar ffurf llun i rai gydag anawsterau dysgu a chyfathrebu? | | | | |
| 13 | Ydych chi'n defnyddio marciau gweladwy iawn i sicrhau diogelwch disgyblion/myfyrwyr â nam ar eu golwg? | | | | |
| 14 | Ydych chi'n ymgynghori â disgyblion/myfyrwyr ag ADY ynghylch hygyrchedd ystafelloedd dosbarth, toiledau a chyfleusterau newid ayyb? | | | | |

**3. A yw eich lleoliad yn hygyrch i bawb?**

| | Cwestiwn | Tic ✓ | Tystiolaeth? | Croes ✗ | Camau i'w cymryd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydych chi'n defnyddio arwyddion hygyrch, yn yr adeilad ac yn ystod gweithgareddau ac achlysuron? | | | | |
| 2 | Ydy disgyblion/myfyrwyr ag ADY yn cael eu cynnwys mewn fforymau sy'n cynnwys disgyblion/myfyrwyr e.e. cynghorau ysgol? | | | | |
| 3 | A oes cefnogaeth bersonol a chreadigol wedi'i threfnu er mwyn i bob disgybl/myfyriwr | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | allu cymryd rhan ymhob gweithgaredd, gan gynnwys tripiau/ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol ac yn ystod amser egwyl? | | | | |
| 4 | Ydych chi'n sicrhau nad yw anawsterau ariannol yn atal disgyblion/myfyrwyr gydag ADY rhag cael eu cynnwys mewn gweithgareddau ac achlysuron? | | | | |
| 5 | Ydych chi'n sicrhau bod symud o leoliad i leoliad wedi'i gynllunio'n ofalus ac wedi'i addasu ar gyfer anghenion unigol disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |
| 6 | Ydych chi'n dod o hyd i ffyrdd hyblyg a chreadigol i sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr ag ADY yn gallu symud yn hawdd rhwng eu dosbarthiadau? | | | | |
| 7 | Ydych chi'n trefnu achlysuron arbennig i grwpiau bychan neu unigolion i feithrin hunan-barch, hyder a sgiliau cymdeithasol? | | | | |
| 8 | Ydych chi'n gweithio'n agos gyda theuluoedd (a'r Gwasanaeth Mynychu’r Ysgol a Lles os yw'n briodol) i wella presenoldeb? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Ydych chi'n cymryd camau rhagweithiol i oresgyn bwlio drwy weithredu polisïau a dulliau gwrth-fwlio? | | | | |
| 10 | Ydy disgyblion/myfyrwyr ag ADY a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth am deithiau ysgol a gweithgareddau ymlaen llaw er mwyn iddyn nhw allu gwneud trefniadau addas? | | | | |

**4. Ydy'r cwricwlwm yn hygyrch?**

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Tystiolaeth** | **Croes ✗** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Os gan staff ddyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |
| 2 | Ydy staff eich ysgol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ac wedi'i ddiweddaru am anghenion ychwanegol ac am sut mae modd diwallu'r anghenion hynny? | | | | |
| 3 | Ydy plant ag anableddau yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama ac ymarfer corff? | | | | |
| 4 | Ydy athrawon dosbarth/staff Addysg Gorfforol yn gwybod sut i gynnwys disgyblion/myfyrwyr gydag | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | anableddau mewn gwersi Addysg Gorfforol? | | | | |
| 5 | Ydy disgyblion/myfyrwyr a'u teuluoedd yn rhan o adolygu cynlluniau unigol am fynediad i'r cwricwlwm? | | | | |
| 6 | Ydych chi'n defnyddio ymateb graddedig wrth ddiwallu anghenion disgyblion/myfyrwyr ag ADY? | | | | |
| 7 | Ydych chi'n defnyddio'r cylch 'asesu, cynllunio gwneud, adolygu' i lywio'r ymateb graddedig? | | | | |
| 8 | A yw'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion/myfyrwyr ag ADY a'r rhai heb ADY wedi lleihau dros amser (gan hefyd sicrhau cyflawniad uchel pob disgybl)? | | | | |
| 9 | Ydy'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion/myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ADY ar gam Ysgol/Ysgol a Mwy neu sydd â datganiad yr un mor dda â disgyblion/myfyrwyr eraill â chynlluniau ADY yn genedlaethol? | | | | |
| 10 | A ydych chi'n sicrhau bod gwaith cartref yn hygyrch i bawb e.e. drwy osod gwaith cartref yn gynnar yn y wers, drwy ei roi ar-lein (a rhoi copi | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | caled i deuluoedd heb fynediad i'r we)? | | | | |
| 11 | A yw staff cyflenwi, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn gwybod am anghenion ychwanegol disgyblion/myfyrwyr ac yn gwybod sut i ddiwallu'r anghenion hynny? | | | | |
| 12 | Ydy staff yn cael amser i gynllunio ar gyfer disgyblion/myfyrwyr sydd angen cwricwlwm gwahanol neu bersonol? | | | | |
| 13 | Oes gan ddisgyblion/myfyrwyr ag ADY fynediad at dechnoleg gwybodaeth briodol? | | | | |
| 14 | Ydy pob oedolyn ychwanegol, gan gynnwys cynorthwywyr dysgu, yn meithrin perthynas gadarnhaol, gan gefnogi hyblygrwydd a hwyluso dysgu'n annibynnol? | | | | |
| 15 | Ydy cymhorthion ategol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr gydag ADY yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm? | | | | |

**5. Pa mor hygyrch yw'r wybodaeth, cyngor ac arweiniad?**

| | **Cwestiwn** | **Tic ✓** | **Os 'ydy' - ble mae modd dod o hyd i'r wybodaeth?** | **Croes ✗** | **Os 'nac ydy' - nodwch y camau i'w cymryd a lle maen nhw wedi'u cofnodi yn y Cynllun Hygyrchedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydy eich Adroddiad Gwybodaeth ADY a Chynllun Hygyrchedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled (ar gyfer teuluoedd heb fynediad i'r we)? | | | | |
| 2 | Ydych chi'n tynnu sylw at Dudalen We'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad? www.rctcbc.gov.uk | | | | |
| 3 | Ydych chi'n gweithio gyda rhieni/cynhalwyr a phobl ifanc i sicrhau bod eich gwefan wedi'i gyflwyno mewn ffordd sy'n addas i bawb? | | | | |
| 4 | Ydych chi'n cynnal cyfarfodydd adolygu ayyb ar adegau lle bydd modd i rieni fynychu? | | | | |
| 5 | Ydych chi wedi datblygu sianeli cyfathrebu a | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | phrosesau adolygu sy'n galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu ddwy-ffordd gyda theuluoedd? | | | | |
| 6 | Ydy'r wybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol? | | | | |
| 7 | Ydy'r wybodaeth ar gael mewn ffurffiau gwahanol, gan gynnwys<br>- 'hawdd i ddarllen'<br>- print mawr<br>- symbolau<br>- sain? | | | | |
| 8 | Ydy staff yn gyfarwydd gyda'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio i rannu gwybodaeth gyda phobl ag anableddau? | | | | |
| 9 | Ydych chi'n sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr yn gwybod yn union pwy i gysylltu â nhw am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth? | | | | |
| 10 | Ydych chi'n rhoi gwybodaeth i blant/phobl ifanc a'u teuluoedd am SNAP Cymru www.snapcymru.org? | | | | |